



3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: BrechfaConnection@pins.gsi.gov.uk

I bob parti â buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020016

Dyddiad: 11 Ionawr 2016

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith
(Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd) – Rheol 13 a Rheol 16**

**Cais gan Western Power Distribution (South Wales) plc am Orchymyn yn
Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cyswllt Coedwig Brechfa**

**Penderfyniad gweithdrefnol ar hysbysu am wrandawiadau a chyhoeddi ail
gylch o gwestiynau**

Rwy'n ysgrifennu at bob parti â buddiant i'w hysbysu am wrandawiadau pellach a chyhoeddi ail gylch o gwestiynau ysgrifenedig, fel yr amlinellir yn yr amserlen archwilio a atodwyd i'n llythyr dyddiedig 13 Hydref 2015.

Ail Gylch o Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio

Rwyf wedi penderfynu cyhoeddi ail gylch o gwestiynau ysgrifenedig. Mae'r cwestiynau wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan a gallwch eu gweld trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/brechfa-forest-connection/>

Rhaid i ymatebion i'r cwestiynau hyn gael eu derbyn ar neu cyn **dyddiad cau 4, sef canol dydd ar 1 Chwefror 2016**.

Mae'r Arolygiaeth yn gofyn i bartion â buddiant anfon copïau electronig o'u cyflwyniadau, lle bo hynny'n ymarferol, ar ffurf atodiadau e-bost at: brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgysylltu â'n proses trwy ein gwefan, lle caiff yr holl gyflwyniadau eu cyhoeddi. Felly, gofynnir i bartion ystyried hynny wrth fformatio'r copïau electronig o'u cyflwyniadau ac osgoi cyflwyniadau sy'n cynnwys nifer fawr o ffeiliau bach, neu ffeiliau rhy fawr, neu nad ydynt wedi eu hoptimeiddio mewn ffordd arall neu sy'n anodd eu llywio heb fod angen.

Dylai atodiadau electronig gael eu labelu'n glir â theitl pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 12MB ar gyfer pob neges e-bost. Caiff cyflwyniadau prydlon cyn y dyddiadau cau a bennir yn yr amserlen eu hannog. Pan fydd cyflwyniad electronig yn fwy na 12MB, byddwn yn derbyn dogfen electronig wedi ei chyflwyno drwy'r post ar gyfrwng symudol (fel cryno ddisg neu yriant USB). Fel arfer, nid yw'n dderbyniol rhoi dolenni i wefannau lle y gellir gweld eich cyflwyniadau, oherwydd nid yw hynny'n gyfystyr â'u cyflwyno.

Mae croeso i bartion nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud cyflwyniadau'n electronig anfon eu cyflwyniadau drwy'r post.

Hysbysiad o wrandawiadau

Rwyf wedi penderfynu cynnal Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol ar 10 Chwefror 2016 a Gwrandawriad Mater Penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar 11 Chwefror 2016. Amlinellir rhagor o fanylion am y gwrandawiadau hyn isod.

Dylai'r partion hynny â buddiant sy'n dymuno siarad mewn unrhyw wrandawriad roi gwybod i Katherine King yn y cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost uchod erbyn dyddiad cau 4, sef canol dydd ar **1 Chwefror 2016**. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i ni os ydych yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawriad, hyd yn oed os nad ydych yn dymuno siarad. Byddai hefyd o gymorth i ni pe byddech yn gallu rhoi gwybod i ni am unrhyw ofynion arbennig sydd gennych (e.e. mynediad i bobl anabl, dolen glyw ac ati). Hefyd, rhowch wybod i ni ymlaen llaw os hoffech siarad yn Gymraeg neu ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu, a sicrhewch eich bod yn cynnwys eich rhif cyfeirnod parti â buddiant yn eich gohebiaeth, a'i gwneud yn glir pa wrandawriad(au) yr hoffech gymryd rhan ynddo/ynddynt.

Rwyf wedi ceisio amlinellu isod y pynciau y cynhelir y gwrandawiadau yn eu cylch, a chaiff agendâu eu cyhoeddi 1 wythnos cyn y gwrandawiadau i gadarnhau hyn.

Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher, 10 Chwefror 2016

Amser y gwrandawriad: 10:00, bydd yr ystafell ar agor o 9:30

Lleoliad: Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Diben gwrandawriad caffaeliad gorfodol yw archwilio teilyngdod yr achos ar gyfer caffaeliad gorfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Adroddiad gan yr ymgeisydd ar y sefyllfa yn ymwneud â:
 - Statws presennol trafodaethau ag unigolion yr effeithir arnynt;
 - Tir y Goron mewn perthynas ag a135 Deddf Cynllunio 2008;
 - Unigolion Categori 3¹;
 - Tir a chyfarpar Ymgwymerwyr Statudol yn ymwneud â gofynion a127 ac a138 Deddf Cynllunio 2008; a
 - Darpariaethau Amddiffynnol.

¹ Y bobl hynny na chynigir caffael eu tir yn orfodol ond y gall adeiladu neu ddefnyddio'r datblygiad arfaethedig effeithio ar eu tir/eiddo cymaint fel y gallant hawlio iawndal (adran 57(4) Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd))

- Sylwadau llafar gan bobl yr effeithir arnynt sy'n bresennol ac/neu a gynrychiolir yn ffurfiol;
- I archwilio a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd i gaffael y tir yn orfodol;
- Sefydlu a yw'r holl ddewisiadau amgen rhesymol i gaffaeliad gorfodol wedi cael eu harchwilio;
- Sefydlu bod yr amhariad arfaethedig ar hawliau'r rhai sydd â buddiant yn y tir yn angenrheidiol ac yn gymesur, gan gynnwys gan gyfeirio at erthygl 8 a phrotocol 1, erthygl 1 o'r Confesiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- Darpariaethau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft;
- Gosod yr asedau presennol y manylir arnynt yn [REP1-064] dan y ddaear:
 - I gadarnhau sut y rhoddir caniatâd ar gyfer y gwaith hwn h.y. datblygiad a ganiateir, fel y nodwyd yng ngwrandawriad Rhagfyr 2014 [REP3-043]?
 - Os nad yw'r gwaith hwn yn ddatblygiad a ganiateir, sut y rhoddir caniatâd ar gyfer y gwaith hwn a phryd y gwneir cais am ganiatâd?
 - A oes unrhyw rwystr tebygol rhag cael caniatâd i gyflawni'r gwaith hwnnw
- Materion eraill

Caiff y gwrandawriadau eu harwain gan yr Awdurdod Archwilio, gyda chyfraniad gan unigolion yr effeithir arnynt (tirfeddianwyr, tenantiaid ac ati), ymgwymerwyr statudol a'r ymgeisydd. Dylai unigolion yr effeithir arnynt gofrestru eu dymuniad i gymryd rhan erbyn dyddiad cau 4, sef canol dydd ar 1 Chwefror 2016, ac amlygu'r lleiniau penodol yr effeithir arnynt. Dylai partion ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio a chyfiawnhau eu datganiadau.

Gwrandawriad Mater Penodol

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2016

Amser y gwrandawriad: 10:00, bydd yr ystafell ar agor o 9:30

Lleoliad: Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Bydd y gwrandawriad hwn yn canolbwyntio ar fater penodol y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft. Y DCO yw'r gorchymyn y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud pe byddai'n dymuno caniatâu'r cais. Mae'r drafodaeth yn y gwrandawriad hwn ar sail 'heb leihau effaith'; er mwyn swyddi partion o gefnogaeth neu wrthwynebiad i'r cynllun yn ei gyfanrwydd; mae hyn yn golygu y gall partion wneud cyfraniadau i wella ansawdd y DCO drafft heb annilysu swyddi hyn.

Beth bynnag fo'i argymhelliad, mae'n arfer arferol i'r Awdurdod Archwilio gyflwyno DCO drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw trafodaeth ynghylch manylion y DCO drafft yn awgrymu bod yr Awdurdod Archwilio wedi dod i gasgliad ynghylch y cais.

Bydd y gwrandawriad yn ymwneud â'r DCO drafft wedi ei seilio ar eiriad penodol y DCO drafft [REP3-048].

I gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

Erthyglau'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu

- Atodlen 2- Cynlluniau
- Atodlen 3- Gofynion
- Atodlen 4- Caffaeliad Gorfodol
- Atodlen 5- Mynediad i'w gynnal ar draul y cyhoedd
- Atodlen 6- Gwaith stryd
- Atodlen 7- Strydoedd a hawliau tramwy
- Atodlen 8- Meddiant dros dro
- Atodlen 9- Darpariaethau i amddiffyn ymgwymerwyr penodol
- Atodlen 10- Cyflawni gofynion
- Atodlen 11- Cael gwared â gwrychoedd pwysig
- Cytundebau Adran 106
- Polion 84, 85 ac 86 – gosod dan y ddaear
- Datganiadau o Dir Cyffredin

Darperir rhagor o wybodaeth am y pynciau hyn a'r materion i'w trafod mewn agendâu a gyhoeddir ar ein gwefan wythnos cyn y gwrandawiadau. Caiff agendâu ar gyfer pob gwrandawriad eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos cyn y digwyddiadau ar dudalen prosiect Cyswllt Coedwig Brechfa ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/brechfa-forest-connection/?ipcsection=docs>

Nodwch os gwelwch yn dda:

Yn bellach, nid oes angen i cynnal y ymweliadau safle yng nghwmni cafodd ei sôn o fewn y llythyr Rheol 8, dyddiedig 13 Hydref 2015.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y caiff y materion eu trafod ar y dyddiau y maent wedi eu trefnu ar eu cyfer. Mae gan yr Awdurdod Archwilio yr hawl i aildrefnu'r agendâu ar gyfer y gwrandawiadau hyn ar fyr rybudd, yn ôl yr angen, neu os byddant yn cymryd yn hwy na'r disgwyl, efallai y bydd rhaid gohirio rhai materion tan ddyddiad diweddarach. Bydd y lleoliadau ar agor i'r cyhoedd hanner awr cyn i'r gwrandawiadau ddechrau. Daw'r gwrandawiadau i ben pan nad oes unrhyw barti ar ôl sy'n dymuno siarad.

Mae pob croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach.

Yr eiddoch yn gywir

Martin Broderick

Martin Broderick
Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno, a dylech gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun, yn ôl yr angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol ei warchod yn unol â'n Siarter Gwybodaeth, y dylech edrych arno cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.